




Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal

Adroddiad dilynol ar
hygyrchedd i ddefnyddwyr
cadair olwyn mewn ysgolion
yng Nghymru



Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal

Cynnwys

Dull Hawliau Plant i ysgolion hygyrch	3
Stori Malin	4
Bywydau Llawn	6
Y Ffordd Gywir	11
Stori Immy	17
Casgliad	18



DULL HAWLIAU PLANT I YSGOLION HYGYRCH

Rhagair gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Yn 2014 pan gyhoeddodd fy rhagflaenydd adroddiad sbotolau ar hygyrchedd ysgolion uwchradd i gadeiriau olwyn, clywodd gan ferch 9 oed a ddywedodd: “Rydw i’n drist oherwydd falle bydda i ddim yn mynd i’r un ysgol uwchradd â’m ffrind.” Y rheswm am hynny oedd bod y ferch 9 oed yn defnyddio cadair olwyn.

Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae disgyblion tebyg i’r ferch 9 oed honno yn dal i wynebu sefyllfa sydd heb newid cymaint ag y byddwn wedi hoffi ei weld. Yn yr adroddiad hwn rwy’n tynnu sylw at beth cynnydd gwirioneddol a rhai enghreifftiau o arfer da mewn gwahanol fannau yng Nghymru, yn arbennig mewn rhai ysgolion sy’n gweithio’n galed i sicrhau bod anghenion eu disgyblion yn cael eu diwallu.

Ond yn ystod y gwaith dilynol hwn fe ges i fy nharo gan y diffyg cynnydd gwirioneddol gan rai awdurdodau lleol o ran cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Roeddwn i hefyd yn teimlo rhwystredigaeth ynghylch y diffyg cynnydd ar y mater hwn gan Lywodraeth Cymru. Bedair blynedd yn ôl, fe wnaethon nhw addo cyflwyno canllawiau statudol newydd. Hyd yn hyn, mae’r canllawiau hynny, sydd bellach yn 14 oed, heb eu newid. Mae hynny’n golygu bod rhaid i blant sydd ag anableddau corfforol ddibynnu ar eu hysgol a’u hawdurdod lleol i weithredu arfer gorau, ond gallan nhw fod mewn sefyllfa fregus oherwydd loteri’r côd post os na chaiff y gofynion cenedlaethol eu diweddarau. Mae hynny’n golygu, mewn gwirionedd, y gallai’r ferch naw oed ddal i wynebu’r un anawsterau a ddaeth i’w rhan hi a’i theulu bedair blynedd yn ôl.

Pan welwn ni awdurdod neu ysgol yn defnyddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant wrth gynllunio, drafftio strategaeth a gwneud penderfyniadau, gallwn ni weld newid pwysig ym mhrofiadau plant a’u teuluoedd.

Yn ogystal ag amlygu meysydd gwan sy’n parhau o fewn y system a blaenoriaethau ar gyfer gwella, mae’r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys ein cyngor, ar sail profiadau gwirioneddol plant a’u teuluoedd, ynghylch sut mae defnyddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i hygyrchedd. Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i gael addysg, ac mae’n rhaid cefnogi pob plentyn yng Nghymru i gyflawni hyd eithaf eu potensial, beth bynnag yw eu galluoedd neu eu hanableddau corfforol.

Rwy’n diolch o waelod calon i Immy, Sue, Malin, Josh a Becca am eu cyngor arbenigol ynghylch yr adroddiad hwn, a hynny ar sail eu profiadau digon heriol o sicrhau addysg hygyrch yng ngogledd, de-orllewin a de-ddwyrain Cymru.

Cewch glywed Malin, disgybl blwyddyn 9 o ogledd Cymru, yn disgrifio manteision amlwg defnyddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn ei ysgol iddo fe a’i deulu. Mae’n glir bod ei gynnwys e a’i deulu wrth wneud penderfyniadau, a’r neges bod ganddo hawl i dderbyn addysg hygyrch, yn hytrach na chael ei ystyried yn ‘faich’, wedi bod yn elfennau hollbwysig o ran ei helpu i ffynnu a chyflawni ei botensial.

Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru
Mawrth 2018

STORI MALIN

Mynediad i gadeiriau olwyn yn yr ysgol uwchradd. Roedd hwn yn fater oedd yn fy ngwneud i'n nerfus iawn ynghylch cychwyn yn yr ysgol uwchradd. Os ydw i'n onest, roedd yn ychwanegu at y straen roeddwn i eisoes yn ei deimlo ynghylch cychwyn mewn ysgol newydd lle na fyddai pawb yn fy nabod, ac roedd yn codi ofn arna i braidd. Roeddwn i hefyd yn ymwybodol mai fi fyddai un o'r ychydig rai oedd yn defnyddio cadair olwyn yn yr ysgol. Roedd y gwyliau haf cyn i mi gychwyn yno yn eitha anodd i fi, achos mod i'n pryderu beth fyddai'n digwydd ym mis Medi.

Allwn i ddim ystyried mynd i Ysgol Uwchradd fy mrawd gan fod yr adeiladau'n hŷn, roedd wedi'i hadeiladu ar lethr, ac roedd llawer o risiau, felly doedd hi ddim yn addas ar gyfer fy nghadair olwyn. Roedd llawer o waith ymchwil gan fy rhieni i'w wneud ynghylch fy anabledd, gan ystyried fy nghadair olwyn ac ethos yr ysgol ynghylch myfyrwyr â gwahanol alluoedd. Rydych chi'n treulio amser hir yn yr Ysgol Uwchradd, ac roedden ni eisiau gwneud yn siŵr mod i'n mynd i'r ysgol iawn. Rwy'n gwybod eu bod nhw wedi treulio ymhell dros flwyddyn yn gwneud gwaith ymchwil cyn ei bod hi'n bryd i mi fynd! Ar sail yr ymchwil a siarad â myfyrwyr/rhieni eraill fe benderfynon ni y byddwn i'n mynd i Ysgol Aberconwy. Fe gafodd fy rhieni gyfarfodydd cychwynnol gyda'r ysgol cyn i mi ddechrau yno, a gyda fi er mwyn i mi fedru rhoi cyngor ynghylch fy anghenion os oeddwn i am fedru mynychu'r ysgol yn annibynnol, ynghyd â gwybodaeth am fy nghyflwr, Ehlers Danlos Math 6b.

Rhaid i mi fod yn onest, doedd fy mhrofiad gyda'r gadair olwyn ddim wedi bod yn wych yn yr ysgol gynradd. Oherwydd fy nghyflwr alla i ddim gwrthio fy hun oherwydd fy nghyhyrau a blinder, felly mae rhaid i mi gael fy ngwrthio yn fy nghadair olwyn llaw. Allwn i ddim defnyddio cadair olwyn drydan yno, felly roeddwn i'n arfer cael fy ngwrthio allan i ganol y lle chwarae amser egwyl, ac roedd disgwyl i'r plant eraill ddod ata i er mwyn chwarae gyda fi. Roedd yn brofiad eitha unig ac fe wnaeth i fi deimlo'n fwy ynysig. Fe welais i gwnsler yn ystod y cyfnod yma i'm helpu gyda sut roeddwn i'n teimlo am fy anabledd. Fe newidiodd hyn pan ddaeth

Pennaeth newydd, ac fe wnaeth fy mywyd wella unwaith roeddwn i'n gallu defnyddio fy nghadair olwyn drydan, achos roeddwn i'n gallu ymuno mwy!

O'r adeg pan ddechreuais i yn Aberconwy roeddwn i'n falch iawn eu bod nhw, o'r diwrnod cyntaf, wedi neilltuo athro cymorth i helpu gyda'r lifft, drysau, amser cinio a mynd i'r gwersi. Unwaith roeddwn i wedi profi mod i'n gall, a'u bod nhw'n gallu fy nhrystio, fe ges i fy set fy hun o allweddi i'r lifft, oedd yn wych, achos roedd yn gwneud i mi deimlo'n fwy annibynnol a'u bod nhw'n fy nhrystio i! Doedd dim angen yr athro cymorth arna i i'm helpu i fynd o gwmpas ar ôl y flwyddyn gynta, achos fe wnes i brofi mod i'n gallu gwneud popeth oedd ei angen yn annibynnol yn fy nghadair olwyn. Mae gen i hefyd fentor blwyddyn gwyach sy'n gallu helpu gydag unrhyw anawsterau neu broblemau sy'n codi i fi yn yr ysgol. Mae gallu mynd i bob rhan o'r ysgol yn gwneud i fi deimlo'n annibynnol; dydw i ddim yn hoffi teimlo'n wahanol i'r plant eraill. Does dim byd erioed wedi digwydd i wneud i mi deimlo mod i'n niwsans.

Galla i gyrraedd y rhan fwyaf o lefydd yn yr ysgol – yr unig le oedd yn anodd i fi gyrraedd ar y cychwyn oedd y bloc cerddoriaeth. Mae'r ardal gerddoriaeth wedi cael ei symud nawr, felly rydw i'n gallu mynd i bob ardal yn fy ysgol. Os byddwn ni'n mynd ar drip ysgol, rydyn ni'n trafod beth yw'r ffordd orau i fi ymdopi, sy'n golygu bod dim rhaid i fi golli cyfle, fyddai'n gwneud i fi deimlo'n drist ac yn wahanol, a mod i'n cael fy ngadael allan!

Mae fy nghadair olwyn drydan yn cael ei storio yn yr ystafell feddygol wrth y brif dderbynfa bob nos, lle mae'n cael ei gwefru'n barod ar gyfer y diwrnod nesaf. Mae pob un o'r athrawon yn gwneud yn siŵr bod fy nesg ar y lefel iawn, mod i'n gyfforddus, ac yn holi ydy popeth yn iawn ac oes gen i unrhyw bryderon.

Rydw i'n teimlo mod i'n cael llawer o gefnogaeth, ac rydw i'n gwybod mod i'n gallu mynd at Mrs Royale (fy mentor blwyddyn), sydd yn y gorffennol hyd yn oed wedi gorfod helpu i'm hachub i o ganol y lle chwarae ar ôl i'r batri yn fy nghadair olwyn fethu!! Os bydda i'n teimlo'n flinedig (sydd yn digwydd gyda fy nghyflwr i), rydw i'n gwybod mod i'n gallu mynd i'r man canolog, gorffwys ac yna mynd nôl i'r gwersi. Rydw i'n gwybod mod i'n gallu mynd i'r toiled yn ystod gwers, a'u bod nhw ddim yn gwneud pwynt o ofyn i fi aros nes bod y wers drosodd.

Rydw i hefyd wedi cael fy synnu'n braf gan ymateb y plant eraill yn yr ysgol i'm cadair olwyn a'r ffaith mod i'n anabl. Maen nhw bob amser yn gwneud lle i fi wrth i fi symud ar hyd y coridorau yn yr ysgol ac yn agor drysau i fi, sy'n help mawr. Yr un peth sy'n wir pan fyddwch chi mewn cadair olwyn yw eich bod chi eisiau i bobl eich gweld chi, a bod hynny'n golygu eich personoliaeth, nid dim ond eich anabledd. Dydych chi ddim eisiau cael eich gwneud i deimlo'n wahanol ar ben eich anabledd!

Fy wnaeth fy mhryderon cyn cychwyn yn Ysgol Aberconwy leihau, oherwydd bod popeth allai gael ei wneud wedi cael ei drafod cyn i fi gychwyn yn yr Uwchradd yno, ac rydw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn rhoi amser i'r ysgol addasu os bydd angen, neu drefnu unrhyw beth mae angen iddyn nhw ei wneud yn wahanol. Er enghraifft,

cafodd toiled arbenigol ei greu ar fy nghyfer cyn i fi fynd yno. Mae pethau yn codi ambell waith, ond y gwahaniaeth yw mod i byth yn cael fy ngwneud i deimlo mod i'n boen neu'n niwsans, sy'n bwysig iawn i fi. Rydw i'n gwybod mod i'n gallu mynd at Mrs Royale neu unrhyw un o'r athrawon sydd gen i, a byddan nhw'n datrys y broblem i fi. Rydw i'n wir yn teimlo fy mod i, yr ysgol a'm rhieni yn dîm, ac mae hynny hefyd yn bwysig! Rydw i'n credu, os byddwch chi'n rhoi cymaint o wybodaeth ddefnyddiol ag y gallwch chi, fod hynny'n rhoi amser i'r ysgol drefnu pethau, a dylech chi roi gwybod iddyn nhw am y sefyllfa ddiwedddara o ran eich cyflwr, er mwyn iddyn nhw fedru eich helpu chi. Y canlyniad yw mod i'n gallu symud yn hwylus o amgylch yr ysgol ac yn wir yn teimlo bod pobl yn fy ngweld i fel Malin, nid dim ond Malin sydd yn y gadair olwyn! Rydw i'n cael fy nhrin fel person ifanc normal yn yr arddegau, ond yn cael cefnogaeth gyda fy anabledd. Wedyn rydw i'n rhydd i daflu fy hun i mewn i fywyd yr ysgol!

BYWYDAU LLAWN

Cefndir

Yn ystod 2017 rydyn ni wedi bod yn dilyn ymlaen o'n hadroddiad 'Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal?' ym mis Tachwedd 2014, oedd yn amlygu pryderon ynghylch mynediad disgyblion ysgol oedd mewn cadeiriau olwyn i ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru, ac yn gofyn iddyn nhw ddiweddarau eu canllawiau ar fynediad i ddisgyblion anabl, a sicrhau bod y rhai sy'n adeiladu ysgolion newydd o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn dangos eu bwriadau i gynyddu hygyrchedd. Fe ofynnwn ni hefyd i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob Awdurdod Lleol ac ysgol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rydyn ni wedi bod mewn cysylltiad â phob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru ac wedi siarad â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

Roedden ni eisiau gwybod a yw Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella mynediad disgyblion yng Nghymru i addysg. Roedden ni hefyd eisiau gwybod ydy plant a'u teuluoedd yn gallu cael mynediad i wybodaeth glir am hygyrchedd mewn ysgolion yn eu hardal, er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus a sicrhau bod plant yn gallu mynd i'w dewis ysgol gyda'u ffrindiau.

Isod ceir rhai o'r pwyntiau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o'n gwaith ymchwil ddilynol.

Dyletswyddau Cyfreithiol

Mae Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gofyn bod pob Awdurdod Lleol yn trefnu Strategaeth Hygyrchedd ac yn gofalu ei bod yn cael ei gweithredu, sy'n golygu bod angen i staff ar draws adrannau'r awdurdod lleol wybod ei bod yn bodoli a beth yw'r camau sydd ynddi ar eu cyfer nhw.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi cynnwys eu Strategaethau Hygyrchedd yn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ehangach; mae'n ofynnol bod gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru gynlluniau cydraddoldeb strategol sy'n cyflwyno eu hamcanion cydraddoldeb a sut byddan nhw'n cael eu cyflawni. Mae hawl gan awdurdodau lleol i gyfuno'r ddwy ddogfen, cyhyd â'u bod yn cynnwys yr holl ofynion ynddynt.

Mae'r Ddeddf yn gofyn bod gan bob ysgol ei Chynllun Hygyrchedd ei hun. Rhaid i ysgolion sicrhau hefyd eu bod yn cyflawni'r hyn maen nhw'n dweud y byddan nhw'n ei wneud yn eu cynlluniau, mae'n rhaid iddyn nhw adolygu eu cynllun i wneud yn siŵr eu bod nhw'n dal i ddiwallu anghenion disgyblion, ac mae'n rhaid iddyn nhw siarad â'r plant a'u teuluoedd fel rhan o hynny.

Yn ogystal â'u hawliau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - cytundeb rhyngwladol sy'n rhestru'r hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc o dan 18 oed. Yn arbennig, mae CCUHP yn nodi bod gan bob plentyn hawl i wybodaeth (erthygl 13), addysg (erthyglau 28 a 29) ac i fynegi barn (erthygl 12). Os ydyn nhw'n anabl, mae ganddyn nhw hawl i gael gofal ac addysg arbennig (erthygl 23). Mae'r hawliau hyn wedi cael eu hymgorffori i Gyfraith Cymru trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Bydd dyletswydd

hefyd ar awdurdodau lleol i roi sylw dyledus i CCUHP a Chonfensiwn y CU ar Hawliau Pobl ag Anableddau pan mae darpariaethau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael eu cyflwyno.

Isod rydym wedi nodi'r gofynion penodol o safbwynt awdurdodau lleol ac ysgolion, a'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu am gynnydd yn erbyn y gofynion hynny.

Strategaethau Hygyrchedd Awdurdodau Lleol

Mae eu Strategaeth Hygyrchedd yn dangos beth yw cynlluniau'r awdurdod lleol o ran cynyddu mynediad disgyblion anabl i'w adeiladau ysgol a'r cwricwlwm llawn o weithgareddau sy'n cael eu darparu ynddynt. Mae'r wybodaeth yma'n bwysig i blant anabl a'u teuluoedd, yn arbennig pan fyddan nhw'n cynllunio ar gyfer addysg eu plentyn yn y dyfodol.

Mewn ymateb i arolwg a anfonon ni at bob awdurdod lleol yng Nghymru, dywedodd 18 o awdurdodau lleol eu bod wedi cyhoeddi eu strategaeth hygyrchedd.

Fe fuon ni'n edrych ar wefan pob awdurdod lleol ym mis Medi 2017 ac yn cynnal chwiliadau ar y gwefannau hynny a thrwy beiriannau chwilio, ond dwy strategaeth gyfredol yn unig y llwyddon ni i ddod o hyd iddyn nhw (Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf). Roedd y dogfennau dan sylw, serch hynny, yn anodd cael hyd iddyn nhw; doedd dim tudalen benodol ar brif wefannau cynghorau ynghylch hygyrchedd mewn ysgolion, a bu'n rhaid dilyn nifer o ddolenni i gael hyd i'r strategaethau eu hunain.

Drwy ffonio pob awdurdod lleol fe lwyddon ni i gyrchu pum strategaeth arall (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Wrecsam, Merthyr Tydfil a Chasnewydd).

Dydyn ni ddim wedi llwyddo i gael gafael ar gopi o strategaethau'r 11 awdurdod lleol arall a ddywedodd eu bod wedi'u cyhoeddi, naill ai dros y ffôn neu ar-lein. Doedd staff Awdurdodau Lleol ddim bob amser yn ymwybodol o'r ddyletswydd statudol i lunio a chynnal strategaeth hygyrchedd pan fuon ni'n cysylltu â nhw.

Ymgynghori â phlant, pobl ifanc a theuluoedd

Fe ofynnion ni i awdurdodau lleol oedden nhw wedi ymgynghori'n eang wrth ddatblygu eu strategaeth hygyrchedd, ac a oedden nhw wedi gwneud ymdrech benodol neu beidio i geisio barn plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd fel rhan o hynny.

Dywedodd un awdurdod lleol eu bod wedi ymgynghori'n eang, ond pan wnaethon ni holi ymhellach, doedden nhw ddim yn gallu darparu rhagor o wybodaeth ynghylch beth roedden nhw wedi'i wneud, sut roedd hynny wedi digwydd, a phwy/faint o bobl roedden nhw wedi'u cyrraedd. Dywedodd chwe awdurdod lleol arall wrthyn ni eu bod wedi ymgynghori â fforymau neu grwpiau penodol o bobl ifanc, ond doedd hi ddim bob amser yn glir oedd y grwpiau hynny'n cynnwys pobl ifanc eu hunain neu beidio.

Er nad yw'r strategaethau'n nodi'n uniongyrchol pa gyfleusterau sydd ar gael ym mhob ysgol unigol, mae'n anodd gweld sut gall awdurdodau lleol asesu addasrwydd y ddarpariaeth ar draws eu hardal heb glywed gan ddisgyblion a yw eu hanghenion yn cael eu diwallu neu beidio, a pha fath o brofiadau maen nhw wedi'u cael wrth chwilio am ysgolion hygyrch addas i fynd iddynt.

Archwiliad o'r stoc Ysgolion Uwchradd

Yn ein hadroddiad gwreiddiol, fe wnaethon ni argymhell y dylai pob awdurdod lleol gynnal archwiliad o'r stoc ysgolion uwchradd, er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw wybodaeth glir ynghylch hygyrchedd i ddisgyblion yn eu hardal.

Mae pedwar ar ddeg o awdurdodau lleol wedi gwneud hyn, ac mae dau arall wrthi'n cynnal archwiliad ar hyn o bryd. Nid oedd un awdurdod lleol wedi diweddarau'r archwiliad ers 2008, ac roedd un wedi dirprwyo hynny i ysgolion ei gwblhau. Dim ond un awdurdod lleol ddywedodd ei fod heb wneud hynny o gwbl, a wnaeth y tri

awdurdod arall ddim rhoi gwybodaeth i ni am y cwestiwn hwn.

Mae'n anodd deall sut gall awdurdod lleol fod yn hyderus o ran ei strategaeth hygyrchedd heb gynnal archwiliad diweddar o'i stoc ysgolion.

Ysgolion Hygyrch

Fe ofynnon ni i awdurdodau lleol ddweud wrthyn ni'n benodol faint o'u hysgolion cynradd, eu hysgolion uwchradd, eu darpariaeth ôl-16, eu hysgolion arbennig a'u hunedau cyfeirio disgybion (UCDau) oedd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Fe ofynnon ni hefyd pa ganran oedd hynny o gyfanswm nifer eu hysgolion.

Fe gawson ni ystod eang o atebion gan awdurdodau lleol, oedd yn amrywio o 13% o ysgolion cynradd yn hygyrch mewn un awdurdod lleol, i 100% o'r ysgolion uwchradd, yr UCDau a/neu'r ysgolion arbennig yn hygyrch yn ardaloedd rhai awdurdodau lleol.

Nid oedd yr ymatebion a gawson ni'n cyfeirio at anghenion y boblogaeth yn yr ardal dan sylw, felly does dim modd pennu beth yw'r ffigur 'cywir'. Dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd fod wrthi nawr yn cwblhau Asesiadau Anghenion Poblogaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Doedd y Ddeddf hon ddim mewn grym pan gyhoeddwyd ein hadroddiad gwreiddiol ond byddai'r wybodaeth hon yn amlwg o fudd i awdurdodau lleol wrth adolygu eu strategaethau hygyrchedd i sicrhau bod y lefel gywir o ddarpariaeth ar gael i ymateb i anghenion.

Dywedodd deg awdurdod lleol wrthyn ni fod rhai o'u hysgolion yn "rhannol hygyrch". Ymhelaethodd rhai ohonyn nhw ar hynny trwy ddweud pa ganran sydd â mynediad ar hyd ramp, toiledau hygyrch a grisiau mewnol, ond dywedwyd wrthyn ni hefyd y gallai fod ffactorau eraill sy'n cael effaith ar ddefnyddwyr cadair olwyn, er na chafodd y rheiny eu nodi'n benodol. Dydyn ni ddim wedi dehongli'r canlyniadau hynny ymhellach oherwydd nad oedd yr holl ymatebion yn dweud wrthyn ni beth roedd "rhannol hygyrch" yn ei olygu iddyn nhw.

Rydyn ni wedi clywed am rai enghreifftiau o ysgolion sydd wedi symud yr holl wersi i ystafelloedd dosbarth ar y llawr gwaelod er mwyn i ddisgyblion sy'n defnyddio cadair olwyn fedru

mynd i'r holl bynciau maen nhw wedi'u dewis gyda'u cyfoedion. Mae hwn yn ateb cadarnhaol, yn enwedig yn achos adeiladau hŷn nad oes modd eu haddasu i ganiatáu mynediad cwbl rydd. Gall cynllun hygyrchedd yr ysgol gael ei ddefnyddio i gynllunio hyn, mewn ymgynghoriad â'r plant a'u teuluoedd.

Bydd cynllunio gweithredol ar gyfer symud i ysgol uwchradd newydd neu ar gyfer cychwyn yn yr ysgol gynradd, gan gynnwys plant unigol a'u teuluoedd yn llawn, hefyd yn bwysig dros ben er mwyn asesu a yw safle ysgol yn wirioneddol addas ar gyfer plentyn neu berson ifanc penodol.

Cynlluniau Hygyrchedd Ysgolion

Fe wnaethon ni ofyn i Awdurdodau Lleol oedd gan bob un o'u hysgolion Gynlluniau Hygyrchedd. Dywedodd 18 o awdurdodau lleol wrthyn ni fod eu holl ysgolion wedi cyhoeddi cynlluniau hygyrchedd. Ond ar ôl i ni ddadansoddi'r ymatebion llawn, dim ond 11 awdurdod lleol oedd yn gallu dweud bod gan bob ysgol yn eu hardal gynllun yn ei le.

Roedd yn dda nodi bod un awdurdod lleol wrthi'n cyflwyno canllawiau i ysgolion ynghylch eu cyfrifoldebau o ran cynlluniau hygyrchedd, o ganlyniad i'n gwaith dilynol.

Roedd hefyd yn dda clywed bod rhai o'r ysgolion oedd â chynlluniau yn eu lle yn ymgynghori a'u poblogaethau cyffredinol o ddisgyblion, yn ogystal ag ymgynghori â disgyblion unigol er mwyn asesu a darparu ar gyfer eu hanghenion penodol.

Rôl Llywodraeth Cymru

Roedd ein hadroddiad gwreiddiol yn cynnwys rhai argymhellion i Lywodraeth Cymru, i adnewyddu eu canllawiau "Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion Anabl" ac er mwyn i unrhyw un oedd yn gwneud cais am arian o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gael eu cyfeirio at gynyddu hygyrchedd.

Mae'r canllawiau hyn yn bwysig i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn deall eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a bod cysondeb wrth roi'r Ddeddf ar waith ledled Cymru. Dylai'r canllawiau hefyd amlygu pwysigrwydd sicrhau bod

hawliau plant anabl yn cael eu cynnal pan fydd strategaethau a chynlluniau hygyrchedd yn cael eu creu a'u gweithredu.

Mewn ymateb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, cawson ni wybod bod y canllawiau wedi cael eu hadnewyddu, ac y bydden nhw'n cael cyhoeddusrwydd mewn digwyddiad ym mis Mai 2017, a'u cyhoeddi ar wefan newydd y rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2018, mae'r canllawiau diwygiedig yn dal heb gael eu cyhoeddi, a'r fersiwn ar wefan Llywodraeth Cymru oedd fersiwn 2004 o hyd. Nid yw'r wefan ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi cael ei hail-lansio chwaith.

Rydyn ni'n cael ar ddeall gan swyddogion Llywodraeth Cymru bod y canllawiau hygyrchedd wedi bod yn destun ymgynghori helaeth. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod ers i'n hadroddiad gwreiddiol gael ei gyhoeddi yn 2014, bydd llawer o blant a phobl ifanc wedi cychwyn ar eu taith yn yr ysgol neu wedi mynd trwy gyfnodau pontio i ysgolion newydd heb i'r canllawiau diwygiedig ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol fod ar gael.

Ein Dadansoddiad

Er ein bod wedi gweld peth gwelliant yn lefel gyffredinol y strategaethau a'r cynlluniau hygyrchedd sydd ar waith, a bod gwaith yn parhau mewn llawer o ardaloedd i wella hynny, rydyn ni'n dal mewn sefyllfa sy'n golygu na allwn fod yn hyderus bod pob awdurdod lleol ac ysgol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd yn destun pryder dysgu nad yw awdurdodau lleol yn ymgynghori â phlant a'u teuluoedd fel mater o drefn wrth lunio'u strategaethau, er gwaethaf y ddyletswydd statudol i wneud hynny.

Rydyn ni hefyd yn nodi nad yw'n ofynnol i strategaethau a chynlluniau gael eu monitro'n weithredol gan Lywodraeth Cymru. Gall Gweinidogion Cymru ofyn am gopiâu o'r cynlluniau a'r strategaethau ar unrhyw adeg, ond mae'n aneglur a yw hynny'n digwydd yn systematig neu'n rheolaidd.

Er ein bod ni wedi gweld tystiolaeth bod rhai awdurdodau lleol wedi cynnwys eu Strategaethau Hygyrchedd yn eu Cynlluniau Strategol Cydraddoldeb ehangach, dydy hi ddim yn glir os ydy hyn yn digwydd mewn pob awdurdod lleol yn rheolaidd ac os ydy awdurdodau lleol yn ystyried eu hasesiadau o Anghenion y Boblogaeth yn rheolaidd wrth gynllunio hygyrchedd chwaith.

Ym mis Tachwedd 2017, mewn datganiad ysgrifenedig, ymrwymodd Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth Cymru i fuddsoddiad ychwanegol â gwerth cyfalaf o ryw £500m ar gyfer y Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif. Mae'r buddsoddiad i'w groesawu, ond os yw'r canllawiau ynghylch cynyddu hygyrchedd yn 14 oed, allwn ni ddim sicrhau bod pob plentyn yn gallu cyrchu eu hawliau sylfaenol o ran addysg. Mae angen arweinyddiaeth glir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y buddsoddiad sylweddol hwn yn y seilwaith addysg yn mwyafu'r cyfleoedd i ddysgwyr anabl.

Beth ddylai ddigwydd nesaf

Mae mwyafrif yr Awdurdodau Lleol wedi adrodd bod peth cynnydd ers i'n hadroddiad gwreiddiol gael ei gyhoeddi yn 2014. Fodd bynnag, mae lle i ddatblygu ymhellach. Yn arbennig, fe hoffen ni weld y newidiadau canlynol yn digwydd er mwyn symud i ffwrdd oddi wrth yr or-ddibyniaeth bresennol ar ysgolion unigol i gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion ag anableddau corfforol:

- 1. Dylai pob awdurdod** lleol gyhoeddi eu strategaethau hygyrchedd ar eu gwefannau, a dylai cynlluniau hygyrchedd ysgolion fod ar gael ar-lein hefyd.
- 2. Mae angen i staff mewn awdurdodau lleol** wybod bod y dogfennau hyn yn bodoli a gallu darparu'r fersiynau diweddaraf i deuluoedd sy'n gofyn amdany'n nhw. Byddai cynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn helpu gyda hyn, a bydden ni hefyd yn argymhell bod adrannau adeiladau ac addysg awdurdodau lleol yn perchnogi'r dogfennau hyn ar y cyd er mwyn rhannu gwybodaeth glir wedi'i diweddarau gyda theuluoedd.
- 3. Mae ymgynghori â phlant** a phobl ifanc a'u teuluoedd yn ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'n rhaid i hynny fod yn rhan o'r strategaethau a'r cynlluniau er mwyn eu gwneud yn ystyrion a chynnal hawliau plant ledled Cymru. Dylai pob awdurdod lleol ac ysgol, felly, fod yn ymgynghori â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth baratoi eu strategaeth neu eu cynllun.
- 4. Dylai Llywodraeth Cymru** gyhoeddi ei chanllawiau diwygiedig ar hygyrchedd o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif cyn i flwyddyn academaidd 2018-19 gychwyn.
- 5. Dylai Llywodraeth Cymru** ac Awdurdodau Lleol ddefnyddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn eu holl waith ynghylch hygyrchedd i blant a phobl ifanc, er mwyn galluogi disgyblion a'u teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus, ac i helpu rhagor o ddisgyblion ag anableddau i fynd i'w dewis ysgol, gyda'u ffrindiau.

Beth yw Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant?


Rydyn ni'n arbennig o falch ein bod wedi gweld, trwy ein gwaith dilynol, rai enghreifftiau o achosion calonogol lle mae ysgolion wedi gweithio'n agos gyda phlant a'u teuluoedd i asesu a diwallu eu hanghenion unigol. Yn yr adran sy'n dilyn, rydyn ni wedi cyflwyno rhai o'r enghreifftiau hynny er mwyn dangos manteision gweithio yn y ffordd hon i ysgolion, awdurdodau lleol a theuluoedd.

Does dim fformat na thempled penodol ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd, ac felly rydyn ni'n annog pob awdurdod lleol i edrych ar eu darpariaeth hygyrch trwy Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, er mwyn gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael mynediad llawn i ddarpariaeth addysg a chyfleusterau. Yn yr adran nesaf rydyn ni'n cyflwyno enghreifftiau sy'n dangos sut mae gwneud hynny.

Y Ffordd Gywir:

Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer ysgolion hygyrch

‘Y Ffordd Gywir’ yw ein fframwaith egwyddorol, ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Yn yr adran hon rydyn ni'n dethol rhai awgrymiadau allweddol ac astudiaethau achos diddorol sy'n ymwneud â phum egwyddor Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, a sut maen nhw'n berthnasol i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â gofynion mynediad corfforol yn derbyn eu hawliau o ran cael addysg. Y pum egwyddor yw: Gwreiddio hawliau plant, Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu, Grymuso, Cyfranogiad ac Atebolrwydd. Dyma sut gall cyrff cyhoeddus gymhwyso'r 42 o hawliau a geir o dan CCUHP. Mae esboniad llawn ar yr egwyddorion hyn a sut maen nhw'n berthnasol i'r system addysg gyfan yn ein canllaw: *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru*.



Gwreiddio

Mae hawliau plant yn darparu'r 3 D: diogelu, dweud eich dweud a darpariaeth.

Dylai hawliau plant fod yn ganolog i gynllunio a darparu gwasanaeth. Yn y cyd-destun hwn gall hynny olygu sicrhau bod strategaethau a chynlluniau hygyrchedd wedi'u fframio fel dogfennau hawliau, yn pwysleisio holl hawliau plant i gael addysg, chwarae a hamdden, cymdeithasu'n rhydd a chyflawni eu potensial. Dylai arweinwyr a staff gael eu hyfforddi ym maes hawliau plant, gan gynnwys bod gan blant ag anableddau hawl i ofal a chymorth arbennig er mwyn gallu byw bywyd llawn, annibynnol (Erthygl 23, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Dylai hyfforddiant o'r math yma atal defnyddio iaith yn ddamweiniol sy'n awgrymu bod anabledd rhywun yn ddiffyg, yn broblem, neu'n faich i'r

Y Ffordd Gywir

ysgol, sef pryder sydd wedi cael ei godi gyda ni. Ddylai plentyn ddim teimlo bod darpariaeth y mae ganddo/ganddi hawl i'w derbyn yn digwydd fel ffafr arbennig, na chwaith y dylai deimlo'n fwy diolchgar nag unrhyw blentyn arall yn yr ysgol am fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith.

Mae angen i wreiddio hawliau plant, gan gynnwys Erthygl 23, fod yn weithgaredd parhaus a deinamig wrth gynllunio a chyflawni, gan gynnwys adolygu pa mor llwyddiannus fu'r gwreiddio (gweler yr adran Atebolrwydd isod).

Astudiaeth achos o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil

Mae gwaith helaeth wedi cael ei wneud yn Ysgol Uwchradd Cyfarthfa ac mae rhan o'u Cynllun Cydraddoleb Anabledd/Hygrychedd yn datgan eu bod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn llawn wrth gynllunio darpariaeth yr ysgol a llunio polisi.

Enghraifft dda o hyn yw bod yr ysgol wedi prynu pedair cadair olwyn wedi'u haddasu'n llawn i'w defnyddio mewn gweithgareddau chwaraeon mewnol ar gyfer gwersi parhaus i ddisgyblion anabl er mwyn medru cynnal sesiynau iechyd a ffitrwydd yn fwy rheolaidd. Cynlluniwyd cyfres o weithgareddau chwaraeon hygrych a'u cwblhau ar ddiwrnod chwaraeon er mwyn sicrhau cynhwysiant llawn i ddisgyblion, ac mae'r ysgol hefyd wedi mynychu cyfres Insport Chwaraeon Anabledd Cymru.

Cynhaliwyd adolygiad o hygrychedd chwaraeon a gweithgareddau ac mae'r holl wersi Addysg Gorfforol bellach yn hygrych, neu mae gweithgareddau wedi cael eu haddasu'n briodol er mwyn ymateb i anghenion pob dysgwr.



Peidio â Chamwahaniaethu

Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn

Mae peidio â chamwahaniaethu yn hawl o dan CCUHP (Erthygl 2). Gall fod sawl haen i gamwahaniaethu, a gall gynnwys rhwystrau corfforol, agweddau, polisiâu ac arferion. Ar lefel sylfaenol, mae angen i'r holl staff ddeall eu dyletswyddau o ran peidio â chamwahaniaethu o dan CCUHP a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hefyd yn bwysig bod awdurdodau lleol yn archwilio hygrychedd yn rheolaidd yn eu hysgolion a'u colegau, a bod ganddynt fecanweithiau i geisio adborth gan ddisgyblion sy'n defnyddio cadair olwyn a'r oedolion sy'n eu cefnogi ynghylch unrhyw rwystrau cymdeithasol neu gorfforol y maent o bosib yn eu hwynebu.

Y ffordd orau o ddarganfod mwy ynghylch sut gall camwahaniaethu fod yn effeithio ar blant sy'n defnyddio cadeiriau olwyn mewn ysgolion neu awdurdodau lleol yw eu galluogi i rannu eu profiadau a'u harbenigedd.

Rhaid i ysgolion ac awdurdodau eraill fod yn ymwybodol o'r effaith ychwanegol pan allai plentyn wynebu camwahaniaethu ar fwy nag un sail (e.e. person ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn ac sydd hefyd â hunaniaeth LHDT).

Astudiaeth Achos: Ysgol Aberconwy

Ar ddechrau'r adroddiad hwn bu Malin, myfyriwr blwyddyn 9 sy'n gadeirydd ar banel pobl ifanc y Comisiynydd Plant yng ngogledd Cymru, yn sôn am ei brofiadau fel disgybl yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Yma mae ei ysgol yn adrodd hanes y gwaith wnaethon nhw i sicrhau bod Malin yn derbyn ei hawliau i gael addysg lawn.

"Fel ysgol, ein prif flaenoriaeth yw bod yr holl ddisgyblion yn cael mynediad i addysg lawn, a sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei eithrio o unrhyw weithgaredd rydyn ni'n ei gynnal yn Ysgol Aberconwy. Gan gadw hyn mewn cof, rydyn ni wedi cydweithio'n agos â rhieni Malin i sicrhau ein bod ni'n ymateb i'w anghenion unigol. Fel rhan o hynny, cyn i Malin ddod i Ysgol Aberconwy fe gawson ni gyfarfodydd cychwynnol gyda'i rieni i drafod ei anghenion a'i ofynion yn fanwl, ond yn fwyaf pwysig i sicrhau bod y broses bontio'n un hwylus i bawb.

Ar ei ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol, fe roeson ni Athro Cymorth penodol i Malin i'w helpu gyda lifftiau, drysau, amser cinio a symud o gwmpas yn yr ysgol. Ond unwaith daeth Malin yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'i gadair olwyn drydan, roedd yn gallu symud o amgylch yr ysgol yn annibynnol. Ymhlith pethau eraill, fe wnaethon ni symud yr ystafelloedd

cerddoriaeth hefyd, er mwyn sicrhau bod Malin yn gallu cael mynediad i'r holl gyfleusterau yn yr ysgol.

Oherwydd ein perthynas waith agos gyda Malin a'i rieni, rydyn ni wedi gallu rhoi newidiadau ac addasiadau ar waith i wneud ei fywyd yn yr ysgol yn hygyrch ac yn gynhwysol. Fel ysgol, rydyn ni'n ffodus bod gennym ni gyfleusterau modern, ac rydyn ni wedi prynu ein cadair olwyn fodur ein hunain ar gyfer unrhyw fyfyrwr a allai fod angen cymorth. Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno cyfleuster toiled arbenigol mewn partneriaeth â Sodexo, mae gennym ni ddesgiau sy'n gallu cael eu haddasu yn holl ystafelloedd dosbarth Malin, rydyn ni'n caniatáu amser rhwng y gwersi i Malin symud o amgylch yr adeiladau'n rhydd, ac rydyn ni'n storio ac yn gwefru ei gadair olwyn iddo fe dros nos yn yr ysgol.

Ym mlwyddyn 7 roedd Malin yn un o'n Llysgenhadon Chwaraeon, ac eleni bydd unwaith eto'n cymryd rhan yng nghynhyrchiad cerddorol yr ysgol. Rydyn ni hefyd yn trafod teithiau allan o'r ysgol gyda Malin a'i rieni, er mwyn gweld sut gall Malin gymryd rhan yn yr estyniadau pwysig hyn i'n cwricwlwm.

Yn ein barn ni, os rhowch fynediad i addysg lawn i bob myfyriwr, does dim terfyn ar y cynnydd y gallan nhw ei wneud."

Astudiaeth Achos:
Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Canolfan Elfed (CE) yn ganolfan gynhwysiant gwbl integredig oddi mewn i Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth, ac mae'n diwallu anghenion ystod eang o ddisgyblion a fyddai'n nodweddiadol yn cael eu haddysgu mewn darpariaeth arbenigol y tu allan i ysgol brif ffrwd. Mae disgyblion sy'n mynd i CE yn derbyn cymorth arbenigol yn unol â'u hanghenion unigol, ond hefyd yn elwa o fanteision lleoliad ysgol brif ffrwd.

Mae gan CE ei rhan ei hun o'r ysgol, a adeiladwyd at y diben, ac mae'n gallu ymfalchïo ei bod yn cynnwys y cyfleusterau diweddaraf o'r radd flaenaf. Mae'r rhain yn cynnwys ystafelloedd dosbarth penodedig, canolfan arbenigol Anawsterau Dysgu Dwys gyda system hoist sy'n rhedeg ar draws yr adran, pwll Hydrotherapi a phwll sblasho, Ystafell

y Synhwyrâu, ystafell Chwarae Meddal, ystafell ffisiotherapi a fflat Sgiliau Bywyd, sy'n cynnwys ystafell wely a chegin. Y tu allan i'r ganolfan mae ardal chwarae amgaeedig sy'n cynnwys parc antur â matiau diogelwch meddal, lle gall y disgyblion gymdeithasu a chwarae mewn lleoliad diogel, er bod mynediad ar yr un pryd i ardaloedd prif ffrwd yr ysgol, sy'n golygu bod y gwaith hollbwysig hwn yn cael ei ymgorffori a'i ategu yn eu trefn ddyddiol.

Sylw un o aelodau panel ymgynghorol y Comisiynydd Plant, sy'n defnyddio cadair olwyn ac a raddiodd yn ddiweddar o 6ed dosbarth Ysgol y Frenhines Elizabeth oedd bod "Canolfan Elfed yn gweithio i wneud darpariaeth brif ffrwd yn fwy o realiti". Cafodd ef fod y pwll hydrotherapi yn golygu bod modd iddo gael y therapi angenrheidiol heb orfod mynd i'r ysbyty, a bod hynny wedi amharu llai ar ei addysg.

Astudiaeth achos o Rhondda Cynon Taf

Mae gennym ni sawl enghraifft o ysgolion newydd eu hadeiladu sy'n cynnig hygyrchedd llawn, nid yn unig i blant a staff yr ysgol, ond hefyd i'r gymuned ehangach. Er enghraifft, yr Ysgol Gymunedol newydd yn Aberdâr, sy'n cynnwys cyfleusterau modern o'r radd flaenaf y tu mewn i'r adeilad a'r tu allan, gyda meysydd chwarae helaeth, cae chwarae 3G ac ardal chwaraeon aml-ddefnydd, sydd fel ei gilydd yn gwbl hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Bydd stadiwm athletau'n cael ei chodi ar y safle erbyn diwedd y flwyddyn nesaf. Mae'r adeilad wedi cael ei asesu gan ymgynghorydd ym maes mynediad i'r anabl, ac mae wedi'i gymeradwyo am fod yn hygyrch i bawb. Mae datblygiad arall yn gysylltiedig ag Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon, sydd yn ogystal â chynnig darpariaeth ysgol mewn adeilad newydd sbon, cwbl hygyrch, hefyd yn cynnwys cyfleusterau addysg i'r gymuned a llyfrgell gyhoeddus ar y safle, ac yn gartref i uned arbennig yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag ADY.

Grymuso

Pan fydd plant yn gwybod am eu hawliau, maen nhw mewn sefyllfa well i fedru manteisio arnynt

Ystyr grymuso yw cynyddu gallu plant i fanteisio ar eu hawliau, ac ymgysylltu â'r unigolion a'r sefydliadau sy'n effeithio ar eu bywydau, dylanwadu arnynt a'u galw i gyfrif. Ar lefel sylfaenol mae'n golygu bod plant yn cael cyfle i ddysgu am eu hawliau a phrofiadau cadarnhaol o fanteisio arnynt. Er enghraifft, efallai bydd plant yn amheus ynghylch bod yn rhan o wneud penderfyniadau, os nad ydynt eisoes wedi cael profiadau cadarnhaol o gael gwrandawriad, neu bod eraill yn cymryd eu barn o ddifri. Rhaid i brofiadau cadarnhaol o rymuso gychwyn yn gynnar – o'r meithrin i fyny – fel bod modd i blant ddatblygu hyder a phrofiadau o wneud dewisiadau a chymryd rhan ar hyd eu haddysg.

Mae grymuso hefyd yn digwydd yn sgîl mynediad i wybodaeth glir, hygyrch. Mae gan blant a'u teuluoedd hawl i dderbyn gwybodaeth pan fydd angen hynny arnynt nhw, mewn fformat sy'n addas iddyn nhw. Dyma'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch pa ysgol byddan nhw'n mynd iddi a gallu cymryd peth rheolaeth a pherchnogaeth ar y cynllunio a'r penderfyniadau sy'n rhan o hynny.



Astudiaeth Achos: Chwaraeon Anabledd Cymru – Y Bwrdd Ieuentid Cenedlaethol

Ffurfiwyd y Bwrdd Ieuentid Cenedlaethol gan Chwaraeon Anabledd Cymru yn 2017, gydag aelodau o bob rhan o Gymru. Nod y bwrdd yw “ychwanegu at lais pobl ifanc oddi mewn i faes chwaraeon i'r anabl yng Nghymru”, a hynny o ddarpariaeth ar lawr gwlad i “gyfrannu at Fwrdd Gweithredu Chwaraeon Anabledd Cymru, gan sicrhau bod pobl ifanc yn parhau'n ffactor craidd yn y penderfyniadau allweddol a wneir.” Roedd y cyfarfod cyntaf yn gyfle i'r aelodau ddod at ei gilydd am y tro cyntaf i drafod eu gweledigaeth a'u dyheadau ar gyfer y bwrdd, fel llais arbenigol i bobl ifanc yng Nghymru. Er mwyn helpu i rymuso aelodau'r bwrdd ieuentid i gyflawni eu rôl newydd, daeth Pippa Britton i gyfarfod Bwrdd mis Rhagfyr i rannu ei phrofiad fel aelod o Fwrdd Chwaraeon Anabledd Cymru a chadeirydd arno. Mae aelodau'r Bwrdd Ieuentid hefyd wedi cael hyfforddiant i'w galluogi i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Hyfforddiant Bychan Cynhwysiant Anabledd Chwaraeon Anabledd Cymru i blant ysgol gynradd. Nod yr Hyfforddiant Bychan ar Gynhwysiant Anabledd yw cynyddu ymwybyddiaeth o chwaraeon i'r anabl, a dangos sut gall ffrindiau ag anabledd gael eu cynnwys yn y gweithgareddau mae disgyblion yn cymryd rhan ynddynt yn ystod yr ysgol a'r tu allan.

Gallai'r dull gweithredu yma gael ei ddefnyddio ar lefel llywodraeth leol i sicrhau bod pobl ifanc anabl yn cael eu grymuso i gyfrannu at gynllunio ac adolygu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yn eu hardal.


Cyfranogiad

Bydd gwasanaethau'n well os ydyn nhw wedi cael eu llunio ar y cyd â'r rhai sy'n eu defnyddio

Mae angen nodi cyfleoedd clir i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau corfforol fod yn rhan o wneud penderfyniadau. Dylai hynny gynnwys cynllunio a phenderfyniadau strategol (ar lefel yr awdurdod lleol a'r ysgol) ac ar gyfer eu cefnogaeth unigol.

O safbwynt cynllunio, bydd anghenion a phrofiadau unigol y plentyn yn hollbwysig. Dylid cofio y bydd yr hyn sy'n gwneud adeilad yn hygyrch yn wahanol i bob unigolyn. O'r herwydd, bydd angen i bob darpar fyfyrwr sydd ag anghenion hygyrchedd gael eu cynnwys yn y gwaith o lywio a chynllunio eu trefniadau pontio.

Er bod hygyrchedd corfforol yn hanfodol, y ffordd orau o lywio'r agweddau cymdeithasol ar hygyrchedd fydd trwy brofiadau pob dydd a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc. Er enghraifft, gall yr angen am fynd y ffordd hir bob tro er mwyn defnyddio lifft neu ramp olygu bod plant a phobl ifanc yn cael eu gadael ar ôl amser egwyl neu yn y cantîn, a bod hynny'n effeithio



ar eu hawliau i chwarae a chymdeithasu. Rhaid cofio bod y broses o gynnwys yn cymryd amser, felly mae angen cynllunio ar gyfer hynny mewn amserlenni pontio ac wrth adolygu cefnogaeth, ond mae'r manteision yn bendant yn werth yr amser a fuddsoddir.

Mae gan Gymru Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a ddylai gael eu mabwysiadu gan awdurdodau lleol yn eu holl waith.

Astudiaeth achos o Awdurdod Lleol Sir Benfro

Er bod adeilad o bosibl yn hygyrch, gall cymryd barn y plentyn i ystyriaeth ynghylch beth sy'n bwysig iddo/iddi ynghylch gallu chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol wella a thrawsnewid eu profiad o'r ysgol. Mae'r enghraifft hon yn ymwneud â phlentyn a fu'n pontio o'r ysgol gynradd i'r uwchradd ym mis Medi 2017. Cafodd cynlluniau pontio ffurfiol eu creu yn ystod ei hadolygiad blynyddol blwyddyn 6 ym mis Hydref 2016. Roedd gan y plentyn syniad clir o sut roedd hi am i'r pontio gael ei drefnu, a bu'n cydgadeirio'i hadolygiad blynyddol, gan ofyn cwestiynau i'r Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) o'r ysgol uwchradd. Isod nodir rhai o'r pwyntiau allweddol oedd yn arbennig o bwysig iddi:

- **Un o'i phrif ddymuniadau** oedd teithio ar gludiant i'r ysgol gyda'i ffrindiau. Bu'r Gwasanaeth Addysg a'r Adran Drafnidiaeth yn cydweithio i sicrhau bod bws hygyrch i gadeiriau olwyn ar ei llwybr hi.

- **Er y byddai wedi** gallu defnyddio lifft i gael mynediad i'r lloriau uchaf yn adeilad yr ysgol uwchradd, trefnodd y CADY amserlen dosbarth oedd yn golygu bod yr holl wersi'n cael eu cynnal ar y llawr gwaelod. Mae hynny wedi golygu bod y plentyn yn gallu symud yn annibynnol rhwng y gwersi, yng nghwmni ei ffrindiau.
- **Gwnaed mân addasiadau** i ystafelloedd newid yr ysgol i sicrhau bod modd i'r plentyn fod yn annibynnol wrth baratoi ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol. Nodwyd yr addasiadau hynny gan y plentyn yn ystod ei hymweliadau pontio.
- **Yn ystod ymweliadau pontio**, bu'r plentyn yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o greu ei Chynllun Personol ar gyfer Gadael yr Adeilad gyda staff yr ysgol a swyddogion hygyrchedd, gan brofi gwahanol lwybrau, a phenderfynu p'un fyddai'n fwyaf priodol iddi.

Bu'r dull hwn o ymdrin â phontio mor llwyddiannus fel ei fod yn cael ei efelychu ar gyfer plentyn arall sydd i symud i'r ysgol uwchradd ym mis Medi 2018.

Atebolrwydd

Dylen ni fod mewn sefyllfa i fedru dweud wrth blant beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud, i ba raddau gwnaethon ni lwyddo, a beth wnaethon ni â'r adborth gawson ni ganddyn nhw

Mae hyn yn golygu cyfathrebu'n glir â phlant mewn modd maen nhw'n gallu ei ddeall. Gall hynny gynnwys bod yn dryloyw ynghylch hawliau, y prosesau sy'n gysylltiedig ag asesiadau, beth mae'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn bwriadu ei wneud ynghylch hygyrchedd mewn ysgolion, i ba raddau llwyddon nhw, a beth ddigwyddodd nesaf. Ar ôl ymgynghori â phlant a phobl ifanc, p'un a oedd hynny ynghylch eu hanghenion unigol neu fel rhan o ddatblygu gwasanaeth, dylen nhw gael adborth ynghylch beth ddigwyddodd o ganlyniad.



Cyngor ynghylch atebolrwydd

Mae'r sylwadau hyn wedi'u hysgrifennu gan Josh, sy'n fyfyrwr Addysg Uwch yn Sir Gaerfyrddin, a'i fam Becca. Mae ganddyn nhw flynyddoedd o brofiad o sicrhau bod Josh, sy'n defnyddio cadair olwyn, yn cael mynediad i addysg a chyfleoedd eraill. Mae ganddyn nhw hefyd brofiad o gefnogi teuluoedd eraill sydd yn yr un sefyllfa. Mae Josh yn aelod o Banel Ymgynghorol y Comisiynydd.

"Mae'r cyfathrebu'n tueddu i stopio adeg llunio'r adroddiad terfynol. Dylai cynhyrchu gwasanaethau ar y cyd â phlant a phobl ifanc olygu eu bod yn cael eu cyflwyno ar y cyd hefyd, a bod llif cyson o gyfathrebu, adolygu ac adfyfrio – gan drin y plant/bobl ifanc fel partneriaid cyfartal.

Weithiau bydd ysgolion sydd o dan bwysau gyda'u cyllideb neu'n ansicr beth i'w wneud yn cyflawni'r isafswm sy'n ofynnol o ran mynediad

a chyfranogiad. Byddai'n dda gweld y plant y mae eu hanghenion yn cael sylw yn gallu rhoi adborth, er mwyn dweud ydyn nhw'n teimlo bod hyn wedi'i gyflawni, ac efallai gallai hynny gael ei gyflwyno i Lywodraethwyr yr ysgol yng nghyswllt atebolrwydd.

Mae dull gweithredu seiliedig ar anghenion, sydd bob amser yn edrych ar yr hyn sy'n anghywir am y sefyllfa, sut dyw'r plentyn ddim yn ffitio a beth sydd angen ei unioni – yn creu sgwrs seiliedig ar ddiffygion. Os bydd ysgolion yn defnyddio dull gweithredu sy'n fwy seiliedig ar asedau, byddan nhw'n gallu nodi beth sydd wedi cael ei wneud yn iawn hyd yma, ble maen nhw arni o ran sgiliau a gwybodaeth gyda'r plentyn a'r teulu, a gosod gwerth ar eu profiad bywyd ochr yn ochr ag arbenigedd yr ysgol, er mwyn gallu cyflawni newid cadarnhaol gyda'i gilydd a chynyddu cyfalaf cymdeithasol yr ysgol."

STORI IMMY

Rydw i'n credu bod Ysgol Uwchradd Whitchurch yn llawer gwell nawr na chyn i fi ddechrau yno. Byddwn i'n dweud wrth blant eraill sy'n ystyried mynd yno am asesu pa mor abl ydyn nhw ac edrych o gwmpas i weld beth fyddai'r ymateb i'w hanghenion cyn penderfynu ble i fynd.

Mae pobl eraill sy'n defnyddio cadair olwyn yn yr ysgol, felly mae'n fwy addas i fi fod mewn ysgolion lle mae pobl eraill sy'n defnyddio cadair olwyn hefyd.

Mae toiledau hygyrch i'r anabl. Mae'n bwysig fy mod i'n gallu eu cyrraedd nhw, ac maen nhw'n agos at y lifft, sy'n gwneud pethau'n fwy hwylus os ydych chi'n dod o lawr arall.

Mae cael mynediad i lifft yn yr ysgol yn bwysig iawn i fi. Mae'n golygu mod i'n gallu symud o gwmpas gymaint yn fwy. Mae rhaid i fi ofyn i'r ysgrifennydd am allwedd, felly mae'n golygu bod rhaid i fi ganiatáu amser i wneud hynny, ond mae hefyd yn golygu bod plant eraill yn methu defnyddio'r lifft, achos bod e dan glo.

Galla i sefyll ar fy mhen fy hun, ond mae rhai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn methu sefyll o gwbl. Dyw cael eich cario neu eich rhoi mewn hoist ddim yn deimlad braf pan fyddwch chi wedi tyfu i fyny. Efallai eich bod chi'n fwy cyfarwydd â chael eich cario pan fyddwch chi'n ifancach, ond wrth i chi fynd yn hŷn rydych chi eisïau gallu gwneud mwy dros eich hunan, gyda llai o gymorth gan bobl eraill.

Mae gennym ni hefyd rampiau a llethrau i'ch helpu i symud o gwmpas yn eich cadair, a does dim grisïau i mewn i'r ystafelloedd dosbarth. Mae rheiliau i afael ynddyn nhw wrth y rampiau hefyd, ond dyw hynny ddim mor ddefnyddiol i'r plant llai, neu blant sydd o bosib mewn cadair olwyn, ond sydd ag anabledau eraill hefyd, fel bod yn ddall. Rydw i'n credu y gallai'r ysgol wneud mwy o bethau gwahanol ar gyfer pobl sydd ag anghenion gwahanol yn ogystal â bod mewn cadair olwyn, fel defnyddio seinïau neu bethau i'w teimlo i helpu plant sy'n ddall i fedru symud o gwmpas yn haws.

Yn eitha aml mae bwlch yn y cymorth pan fyddwch chi'n symud i fyny i'r ysgol uwchradd. Allwn i ddim mynd i'r ysgol uwchradd y bues i'n edrych arni i ddechrau, achos doedd hi ddim yn hygyrch nac yn addas i fi. Roedd hynny'n golygu mod i'n methu mynd i'r ysgol uwchradd gyda'm holl ffrindïau. Mae gan fy ysgol uwchradd nawr chwech o bobl sy'n defnyddio cadair olwyn, ac er bod anghenion gwahanol gan bob un ohonon ni, mae'n dda gweld pobl eraill sy'n defnyddio cadair olwyn yn fy ysgol hefyd.

Rydw i'n credu dylai pob meithrinfa, ysgol gynradd, ysgol uwchradd, coleg a gweithle fod yn gwbl hygyrch i bawb sy'n defnyddio cadair olwyn. Rydw i eisïau i leoedd fod yn addas ar gyfer pobl eraill sy'n defnyddio cadair olwyn, nid dim ond cael addasiadau sy'n golygu bod lleoedd yn addas i fi.

DIWEDDGLO

gan Gomisiynydd Plant Cymru

Mae'n dda nodi, ers i'r adroddiad gwreiddiol gael ei gyhoeddi, fod ymwybyddiaeth gyffredinol awdurdodau lleol ac ysgolion o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi gwella, ac o ganlyniad mae plant a phobl ifanc yn raddol yn chwarae mwy o ran yn eu trefniadau pontio eu hunain. Mae'r profiadau a amlygwyd gan yr adroddiad gwreiddiol a'r broses o olrhain hynt yr argymhellion hynny wedi cadw mynediad i gadeiriau olwyn ar eu radar.

Trwy'r gwaith hwn nodwyd nifer o feysydd i'w gwella. Ni fyddai pob un o'r rhain yn ddyletswyddau pendant o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ond maent serch hynny yn gwneud gwahaniaeth pwysig i hygyrchedd gwirioneddol ysgol o safbwynt rhywun sy'n defnyddio cadair olwyn. Mae'r rhain yn ymwneud â mynediad i wybodaeth a mynediad cymdeithasol.

Mae fy nhîm a minnau wedi canfod nad yw teuluoedd o reidrwydd bob amser yn cael mynediad hwylus i wybodaeth glir am ysgolion a darpariaeth yr awdurdod lleol yn eu hardal. Rwyf wedi clywed am bobl ifanc yn bod yn rhan o gynllunio pontio ac asesiadau, ond nid wyf eto wedi gweld enghreifftiau o'r adborth clir ddylai gael ei roi i bobl ifanc ar ôl ymgynghori.

Carwn annog pawb sy'n ymwneud â chreu cynlluniau ar gyfer disgyblion yn eu hardal i gymhwyso pum egwyddor Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant wrth wneud hynny, gan gynnwys egwyddor derfynol atebolrwydd.

Mae'r gwaith i adnewyddu gwefan Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a'r achos busnes a'r canllawiau hygyrchedd cysylltiedig yn gyfle clir i wreiddio egwyddorion hawliau plant yn y fframwaith hwn. Gall fod yn anodd ar adegau gweld sut mae hawliau plant yn rhan o feysydd polisi sydd heb gysylltiad uniongyrchol â phlant, megis rheoliadau adeiladu a chynllunio. Ond mae'r enghreifftiau yn yr adroddiad hwn yn amlygu'r angen am ystyried yr effaith ar blant a'u hawliau ym mhob rhan o waith Llywodraeth Cymru, a chyflawni'r ymrwymadau i hawliau plant sy'n rhan o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod hygyrchedd yn dod yn fwy na rampiau a rheiliau yn unig, a bod cysylltiad yn cael ei wneud rhwng mynediad corfforol a chymdeithasol pryd bynnag y cyflwynir cynlluniau i'r rhaglen hon.

Bydda i'n cadw golwg ar gynnydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn ysgrifenedig, er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau yn yr adroddiad hwn yn cael eu rhoi ar waith i wella profiadau disgyblion anabl a'u teuluoedd yng Nghymru.

Mae'r enghreifftiau cadarnhaol sy'n cael eu rhannu yn yr adroddiad hwn yn atgoffa pawb ohonom am fanteision ymgysylltu â phlant a theuluoedd er mwyn cynllunio ar gyfer eu hanghenion a'u diwallu, ac na fydd gwasanaethau sy'n troi o gwmpas y person yn cael eu gwireddu ond os byddwn ni'n ymgynghori â phawb, gan gynnwys plant, wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau. Fe hoffwn i weld yr enghreifftiau cadarnhaol hyn yn dod yn realiti i holl blant Cymru, ac rwy'n cloi'r adroddiad hwn â her i bawb sy'n ymwneud â sicrhau hygyrchedd i blant:

“Ai dyma brofiad pob plentyn yn eich ysgol neu eich awdurdod lleol chi?” Os na, bydd Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer cynllunio a darpariaeth yn helpu i wireddu mynediad cyfartal.

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth

Ffordd Ffenics

Llansamlet

Abertawe

SA7 9FS

01792 765600

post@complantcymru.org.uk

facebook.com/childcomwales

@complantcymru (twitter)

YouTube: commissionerwales

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill
trwy gysylltu gyda ni. Mae ein manylion
cyswllt uwchben.